Coeden Ddarllen Rhydychen


# Robin Hwd

Roderick Hunt Alex Brychta



Tylluanod

DRAKE




Aeth Cad a Wilma i'r pantomeim.
Aethon nhw gyda mam Wilma.
Roedd ganddyn nhw ffrind o'r enw Anneena.
Aeth Anneena i'r pantomeim
gyda nhw.



Pantomeim am Robin Hwd oedd e.
Dyn da oedd Robin Hwd.
Roedd e'n byw mewn coedwig gyda'i ddynion.
Roedd pawb yn hoffi Robin Hwd ac yn gweiddi
hwrê bob tro roedd yn dod i mewn.




Roedd dyn drwg o'r enw Y Siryf.
Doedd neb yn hoffi'r Siryf.
Roedd e am ddal Robin Hwd
a'i roi dan glo.
'Gwylia dy hun, Robin!' gwaeddodd y plant.




Y diwrnod canlynol, aeth Wilma ac Anneena
i chwarae gyda Cad.
Canon nhw gân am Robin Hwd.
Canodd Wilma ei gitâr a chanodd Anneena ei
recorder.



Doedd Onw ddim yn hoffi'r gân.
Rhoddodd ei ddwylo dros ei glustiau
a gwneud wyneb hyll.
'Woooooooh!' meddai Onw.



Roedd gan Onw allwedd am ei wddf.
Yr allwedd hud oedd hi.
Roedd Cad yn flin gydag Onw.
'Rho'r allwedd yn ôl yn y blwch,' meddai hi.






Yn sydyn dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
'Cymer ofal, Anneena,' meddai Cad.
'Allwedd hud yw hon ac mae'r hud
yn gweithio.
Mae'n bryd cael antur.'



Aeth yr hud â'r plant i goedwig.
Dyma'r goedwig lle roedd Robin Hwd yn byw.
Gallai'r plant weld Robin gyda rhai
o'i ddynion.



Doedd Robin Hwd ddim wedi gweld y plant.
Roedd ofn ar Anneena.
'Rwy'n gobeithio ei **fod** yn ddyn da,' meddai.
'Dewch,' meddai Onw. 'Rwy'n gallu arogli bwyd.'




Gwelodd Robin Hwd y plant.
'Pwy ydych chi?' gofynnodd.
'Ydych chi ar goll yn y goedwig?
Dewch i eistedd.'





Eisteddodd y plant ger y tân.
'Gwelson ni chi mewn drama,' meddai Anneena.
'Gallwn ganu cân amdanoch chi.'
'O na!' meddai Onw. 'Nid y gân eto.'



Canodd Cad, Wilma ac Anneena y gân.

Dywedodd y gân fod pawb yn hoffi Robin ond bod neb yn hoffi'r Siryf.

Gwaeddodd dynion Robin Hwd hwrê.



'Am gân dda!' meddai Robin Hwd.

'Canwch hi i fi eto.'

Edrychodd Onw y tu mewn i botyn mawr du.

Welodd neb y Siryf yn dod.



Yn sydyn rhedodd dynion y Siryf i mewn.
Gafaelon nhw yn Robin Hwd a rhoi rhaff o'i gwmpas.
'Rwyf wedi dy ddal o'r diwedd!' meddai'r Siryf.




Neidion nhw ar ddynion Robin a gafaelon nhw yn Cad, Wilma ac Anneena.
Rhoddon nhw'r cyfan mewn cert.
'Ewch â nhw o'ma!' meddai'r Siryf.



Cuddiodd Onw yn y potyn mawr du.
Welodd dynion y Siryf mohono.
'O na!' meddai. 'Beth fedra i ei wneud?
Rhaid imi eu helpu nhw.'





Aeth y Siryf â nhw i bentref.
Dywedodd, 'Mae fy nghastell yn rhy bell,
felly arhoswn ni yma.
Bydd un o'm dynion yn gofalu na wnewch
chi ddianc.'



Aeth Onw i fyny at y dyn.
Rhoddodd losin i'r dyn.
'Beth yw'r peth yna?' gofynnodd.
'Rydych chi'n cloi pobl ynddo fe,' meddai'r dyn.





'Fedrwch chi ddim cloi pobl yn hwnna,' meddai
Onw. 'Fedrwch chi mo'u cael nhw i mewn.'
'O medrwch,' meddai'r dyn. 'Edrychwch.'
Rhoddodd ei ben a'i ddwylo i mewn.




'Ha!' meddai Onw. 'Llyncoch chi hynna.'

Clodd y dyn i mewn a mynd â'i allweddi.

'Grrrr!' meddai'r dyn.





Rhyddhaodd Onw nhw.

'Dewch ymlaen, bawb,' meddai Robin Hwd.

'Dewch inni fynd yn ôl i'r goedwig.

Dydyn ni ddim am i'r Siryf ein dal ni.'



Aethon nhw i ran newydd o'r goedwig.

'Tair hwrê i Onw,' meddai Robin Hwd.

'Nawr beth am ganu'r gân yna amdanaf fi eto?'

'O na!' meddai Onw.



Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.

'Jyst mewn pryd,' meddai Onw.

'Mae'n bryd inni fynd.'

'Hwyl fawr,' meddai'r plant.

'Hwyl fawr,' meddai Robin Hwd, 'a diolch.'



'Am antur!' meddai Anneena.

'Roeddwn i'n hoffi Robin Hwd a'i ddynion.

Beth am inni ganu'r gân?'

'Aaaaaah!' meddai Onw.

Argraffwyd yng Nghymru

# 5 Robin Hwd

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Tylluanod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafforddd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-252-4

ISBN 0 86 174252 4

DRAKE

9 780861 742523